Cyfres yr 20fed Ganrif

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 14. Rhif 11.] TACHWEDD, 1914. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD

Ar Edyn Ffydd.

Dagrau Cenedl o Famau
Oddiar y Twr.

Iesu Grist.

Papyrau Achlysurol.

Dychweliad Caethiwed Bethel.
Henry Machnog Jones, Llandyssul.

Yr Agwedd Grefyddol ar Gwestiwn y Rhywiau.
D. J. Davies, Ph.D., B.A.

Miss Emily Sharpe
(Gyda Darlun).

Priodasau.

Marwgofion

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telérau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN AWR YN BAROD—

'Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW'

GAN Y PARCH. JOSEPH WOOD.

(WEDI EI GYFIEITHU I'R GYMRAEG).

Pris 1/-; drwy y Post 1/1½. I ddosparthwyr, 7 copi am bris 6.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

Geiriadur Newydd Spurrell.

CYMRAEG A SAESNEG.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL,
Gyda Rhagymadrodd gan Syr EDWARD ANWYL.

Pris 2/6 nett. Cludiad 3c. y copi.

'Crwth Dyffryn Clettwr'

PRIS (LLIAN) 2/-. CLUDIAD 2g. Y COPI.

Ychydig Gopiau heb eu gwerthu.

I'W CAEL O
SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. TACHWEDD 1914. [CYF. XIV. RHIF 11.

AR EDYN FFYDD.

DUW GADWO'R BOBL.

Pa bryd y cedwi'r bobol?
Drugarog Dduw, pa bryd?
Nid mawrion ond y miloedd,
Nid beilchion, ond y byd!
Blodau Dy galon yw'r rhai hyn—
Gânt hwy ddiflanu megis chwyn,
Heb weled gwawr o obaith gwyn?
Duw gadwo'r bobol!

Gaiff trosedd fagu trosedd,
A'r cryf gryfhau o hyd?
A fyni Di i lafur
Fyth gynal gormes byd?
Na! medd Dy fryniau; na! Dy nef;
Fe gwyd yr haul, a chyd ag ef
Dynoliaeth gwyd a llawen lef—
Duw gadwo'r bobol!

Pa bryd y cedwi'r bobol?
Drugarog Dduw, pa bryd?
Y bobol, Dad, y bobol!
Nid beilchion, ond y byd!
Duw gadwo'r bobol—plant i Ti
Ynt hwy, fel Dy angylaidd lu;
Rhag llygredd, trais, anobaith du,
Duw gadwo'r bobol!

EBENEZER ELLIOT.

(Cyfieithiad y Parch. Keri Evans, M.A.)

DAGRAU CENEDL O FAMAU.

YN nghanol dirboenau anherfynol y rhyfel y mae cenedl heb enw, heb iaith, heb lywydd, heb gyffiniau. Ni roddir ei thiriogaeth ar unrhyw fap. Cenedl ddirgel yw wedi ei chylymu ynghyd gan rwymau anweledig. Cenedl yw sydd yn trigo yn mhob gwlad a aradir gan y cleddyf. Cenedl o famau yw—

Cenedl o fewn Cenedl.

Yr un yw natur mam yn mhob gwlad. Ni ellir sylweddoli holl echryslonrwydd rhyfel ond gan y genedl o famau cuddiedig o fewn cenedloedd mewn rhyfel a'u gilydd, y rhai a deimlant guriad yr holl galonau trist hyny. Y mae miliynau o famau y funyd bresenol yn dioddef ing a gloes nas medrwn ni ei ddirnad. Ni ellir cyfrif nifer y mamau a ddioddefant bangfeydd di-orphen yn eu mynwesau. Ond pe ceisiem ddychymygu cyfanswm y poen a geir yn noswyliad deng miliwn o famau, byddem mewn ffordd i amgyffred maint aruthrol y trychineb sydd wedi gorddiwes yr hil ddynol.

Tristyd Mamau.

Deng miliwn o famau yn wylo, fel Rahel, am eu plant! Y fath fôr o ddagrau! A phob deigryn yn cynwys yr un tristwch hallt, pa un ai yn Warsaw neu Munich, Cracow neu Cologne, Bruges neu Amiens, Arras neu Ely, Llundain neu Louvain. Y mae galar mam yn rhywbeth ar ei ben ei hun. Y mae tuallan i achosion rhyfel, cwerylon llwythau, balchder ymherodraethau. Y mae yn hynach, yn fwy parhaus na'r un o'r cymhellion sy'n anfon dynion dewr i frwydr. Y mae talaethau yn codi ac yn cwympo, ymherodraethau yn dod ac yn mynd, ond trwy holl gyfnewidiadau y peiriant llywodraethol y mae'r genedl o famau yn aros yn anninystriol. A phan dorir y linciau rhwng cenedloedd, erys y linc hon yn dŷn—rhwng mamau y milwyr ieuainc sydd yn lladd eu gilydd y mae linc cariad cyffredinol.

Y Linc sydd yn Dal.

Da yw i'r byd fod y linc olaf hon yn dal pan mae'r holl linciau eraill wedi tori yn ystorm y rhyfel. Linc brawdgarwch yw'r cyntaf i fynd, a dynion gyda math o drais anewyllysgar yn dysgu eu hunain i gashau cydgreaduriaid na welsant erioed mo honynt. Y cas hwn, math o nwyd gwneud yw, ac nid hawdd ei gadw a'i gynal ar y bwyd mae yn byw arno. Un o ddirgel bethau rhyfel yw'r ffaith anwadadwy nad yw milwyr ddim haner cystal cashawyr ag yw dinaswyr. Y gwir yw ni ellwch ladd dyn heb sylweddoli ei fod yn frawd.

Gwynebpryd Melus, Trist y Fam Dragwyddol.

Y mae'r holl linciau eraill yn mynd gyda linc brawdgarwch—linc celf, linc gwyddor, linc crefydd, linc dysg, linc barddoniaeth, linc cerddoriaeth, linc diwylliant cymdeithasol, linc meddygiaeth. Tawdd rhyfel hwynt i gyd. A'u dynoliaeth dlawd nad oes ganddi ond linc mamdod i'w hachub rhag cynddaredd y goedwigfa a chreulonedd y llaid cyntefig. Y mae Duw Rhyfel yn cymeryd pob peth arall i ffwrdd, ond hwn nis gall.

Trwy fwg dinasoedd sydd ar dân canfyddwn wyneb melus, trist, y fam dragwyddol yn tosturio uwch ben maes y brwydrau, yn chwilio'r ffosydd gyda thynerwch amyneddgar am wyneb anwyl, yn gosod llaw barchus ar feddau meirw nas edwyn, ac yn tywallt dros yr holl anrhefn cymysglyd, ddysgleirdeb sanctaidd defosiwn didranc.

Y Ffurf Uwchaf o bob Cariad.

Ni ddichon neb ddychmygu dyfnderoedd yr ingoedd a ddioddefir gan famau Ewrop. Ni allant fyned dros y gagendor mawr sydd yn gwahanu calon tad oddiwrth galon mam. Y mae cariad tad tuag at ei fab yn wahanol mewn rhyw yn ogystal ag mewn gradd, oddiwrth gariad mam tuag at ei mab. Gorfoda tlodi iaith ni i ddefnyddio yr un gair am y ddau serch, ond fe ddylai fod gair i osod allan deimlad annesgrifiadwy mamdod. Soniwn weithiau am synwyr mam ond yn anfynych am gariad mam, ac eto cariad mam yw'r ffurf uwchaf o bob cariad. Am hyny, pan geisia gwlad gan fam i roddi ei mab at ei gwasanaeth, mae'n gofyn am rywbeth mwy anwyl na bywyd ei hunan. Ychydig famau sydd na fyddai'n well ganddynt roddi eu bywyd eu hunain yn hytrach na bywyd y mab a anwyd iddynt. Cariad mwy nid oes gan neb na chariad y fam sy'n rhoddi bywyd ei mab i'w gwlad.

Mamau'n gyfartal yn yr Aberth a wnant

A'r cariad mamol hwn mae uwchlaw pob moesddefodau a gwahaniaethau gradd a dosparth. Mae'r holl famau'n gyffelyb yn eu haberth. Y fam dlawd yn *slum* y dref neu o ganol y wlad, mae'n rhoi ei "holl" pan yn rhoi ei mab i'r fyddin, a'r foneddes fwyaf yn y wlad nid yw yn rhoddi dim mwy na dim llai. Yn y tân prawf hwn fe dynir mamau at eu gilydd. Gwneir hwy yn un drwy ddioddefaint a hunanddiarddeliad. Gwnant un gyfeillach fawr ddistaw o dristwch ewyllysgar. Mae ein byddin newydd o dan fwy o ddyled na ellir byth ei ddychmygu i arwriaeth syml mamau ein gwlad. Mae'r bobl ieuainc sydd yn gorymdeithio trwy heolydd ein trefydd mawrion yn rhwym wrth dannau tyneraf calon eu mam. Pa nifer o honynt a allent, neu a fynent, ateb yr "alwad fawr" pe bai eu mamau yn eu dal yn ol? Eu gwlad sydd yn llefain "Deuwch!" ond eu mamau

sydd yn dywedyd "Ewch!" Pa fab a ddichon ddyfalu'r poen cuddiedig sydd yn curo tu cefn i'r wên hynod, a'r llais crynedig, a'r breichiau cofleidiol?

Galar y Fam.

I'r marw dewr y mae bedd, ond i'r fam y mae tristwch na ellir byth ei liniaru. Gall ereill anghofio; ond hi byth. Mae'n cario ei gloes hyd y bedd. Eiddo hi yr adgof hir, araf, a gedwir yn ffres gan weddillion a anwylir—cudyn o wallt cyrliog plentyndod, rhes o *photos*, gwisgoedd yn perthyn i wahanol adegau plentyndod, teganau a phob math o bethau sy'n aros ar ol mewn cartref gwag!

Ac eto nid yw'r mamau Prydeinig hyn yn petruso nac yn ymollwng dim. Adroddant eu geiriau ffarwel gyda gwenau diofn, a dewrder amlwg sydd yn ffugio diofalwch. Pan ragwelant yr ergyd yn syrthio, daliant eu penau yn uchel a gwynebant wagder bywyd heb flinder ac heb dristwch. Un dydd, ychydig amser yn ol yr oedd dau frawd ar Lechres Anrhydedd—un yn filwr, y llall yn forwr, y ddau ar fin cyrhaedd oedran gwyr. Bu un farw dros ei wlad yn Ffrainc, a'r llall dros ei wlad yn Mor y Gogledd. Yr oedd y fam ddiblant wedi eu rhoddi ill dau, ac yn awr nid yw ei bywyd yn dal nemawr ddim heblaw tristwch diderfyn.

Rhodd mor Fawr

Yn wyneb y fath aberth ni all gwryw ond ymostwng ar ei liniau mewn parch gostyngedig a diolchgarwch distaw. Nid oes dim ond achos pur a dilychwin ddichon sancteiddio rhodd mor fawr.

Ni fydd mamau dynolryw wedi dioddef yn ofer os prawf eu dioddefiadau yn brynedigaeth dynoliaeth. Allan o'u cystudd a'u gloes dymunwn i ewyllys y byd gael ei ail-eni—yn ewyllys i sefydlu ac i gadw heddwch ar y ddaear yn erbyn ei holl elynion hyd byth.—J.D.

ODDIAR Y TWR.

ER'S dros dri mis bellach nid oes i'w weled dros ran fawr o Ewrop ond byddinoedd ar ymgyrch tua maes y gwaed, nac i'w glywed ond swn y gŵn a'r fagnel, trwst y cledd, ffrwydriadau byddarol tân-belenau deffir tua'r ddaear o awyrlongau, ac ocheneidiau calon-rwygol trueiniaid clwyfedig; ie, nid yn unig ocheneidiau trueiniaid clwyfedig, ond hefyd gruddfanau dolefus gweddwon ac amddifaid mewn aneirif

fythynod drwy'r gwledydd, oherwydd colli o honynt rywun neu rywrai anwyl iddynt. Yn

Yr Ysgarmes Waedlyd

y mae yn agos i haner gwledydd Ewrop yn cymeryd rhan; yn wir, a chymeryd poblogaeth y gwledydd hyn i ystyriaeth fel safon cymhariaeth, nid gormodiaeth fyddai dyweyd fod bron yr oll o Ewrop yn cymeryd rhan yn yr ornes'.

Dywedir fod poblogaeth y cyfandir (gan gynwys eiddo Prydain Fawr) oddeutu pedwar can miliwn; a phoblogaeth y gwledydd sydd a'u byddinoedd ar y maes oddeutu tri chan miliwn. Felly, gwelwn fod tair rhan o bedair o boblogaeth Ewrop yn ddeiliaid y gwledydd rhyfelog. Yna, yn ychwanegol at y byddinoedd Ewropaidd, cymerir rhan yn y rhyfel hefyd gan filwyr o'r India a'r oll o'r taleithau Prydeinig ereill ym mhob rhan o'r byd, yn nghyd a chan Japan bellenig. Y mae, felly, yn agos i hanner poblogaeth y ddaear—os nad mwy na'r haner—yn teimlo dyddordeb arbenig yn y frwydr; ac nid yw dyddordeb yr hanner arall ynddi nemawr llai. Ymddengys, ar un olwg, fel pe fod breuddwyd awdwr llyfr y Datguddiad, yn yr hwn y gwelai ddydd

Yr Armagedon Fawr

yn ngwyll y dyfodol pell, wedi ei sylweddoli bron yn gyflawn. Dyma eiriau'r gweledydd: "Ac efe a'u casglodd hwynt i le a elwir yn Hebraeg Armagèdon." Wrth y gair Armagèdon y golygai, yn debygol, leoliad y frwydr olaf rhwng y drwg a'r da, o'r hon y delai y da allan yn fuddugoliaethus, ac y dinystrid gallu a llywodraeth y drwg yn derfynol ac am byth. Nid oes genym ond gobaith gwan fod dydd tranc y drwg yn agos, fod ei ddiorseddiad i fod yn un o ffrwythau y rhyfel presenol. Y mae gorsedd y drwg, eto, yn sefyll ar sylfaen rhy gadarn iddi gael ei siglo yn fuan ac yn rhwydd. Llawn mor wan yw'r gobaith fod dydd goruchafiaeth y da ar wawrio. Yn ol pob arwydd, â llawer iawn o genhedlaethau heibio eto cyn y gwelir y dydd hwn. Ond y mae breuddwyd llyfr y Dadguddiad wedi ei sylweddoli cyn belled a hyn—yn gyntaf, yn nghyffredinolrwydd y frwydr; yn ail, yn fod y frwydr yn frwydr rhwng

Dwy Ogwydd Feddyliol.

Cyfeiriwyd eisioes at nifer y rhai a deimlant ddyddordeb ymarferol yn y rhyfel, fel nad oes angen ymhelaethu ar hyn eto. Beth yw'r ddwy ogwydd feddyliol ydynt wrth wraidd y rhyfel presenol? Un ydyw—yr ogwydd fateryddol; y llall—yr ogwydd grefyddol. Yr

athroniaeth a'r hon y mae'r meddwl Germanaidd wedi ei drwytho yn ystod, dyweder, yr ugain neu'r deng mlynedd ar hugain diweddaf yw—mai mewn nerth y mae iawnder. Y mae Cristionogaeth yn Germani er's cenhedlaeth neu ddwy o amser, yn ymarferol, yn llythyren farw. Tuag at faterolaeth neu anffyddiaeth neu (efallai yn fwy cywir) Agnosticiaeth y gogwydda meddwl (yn ymarferol) yr oll o'r boblogaeth. Nid yw egwyddorion Cristionogaeth, fel eu dysgir yn y bregeth ar y mynydd, amgen na thestyn gwatwaredd iddynt. Gwir y gwna'r Ymherawdwr ddefnydd o enw'r Duwdod bron yn mhob peth a ddywedir neu a ysgrifenir ganddo. Ond y mae y dull ymffrostgar y defnyddia ei enw yn gabledd gwrthun; ie, yn filwaith mwy o gabledd na hyd yn oed y gwadiad mwyaf pendant o'i fodolaeth. Ffrwyth terfynol yr ogwydd feddyliol hon yn wastad yw—

Ymwrthodiad Llwyr a Phob Rheol o Iawnder

yn ol fel eu dysgir gan Gristionogaeth. Yn cael ei llywodraethu (fel y gwna) gan yr ogwydd feddyliol hon, nid syndod ydyw fod Germani yn yr oll o'i hymddygiadau cyn ac ar ol cychwyn y rhyfel, wedi arddangos ei hun, nid y genedl "fwyaf diwylliedig" yn y byd, fel yr haera hi ei hod, ond yn genedl nad yw egwyddorion iawnder a thosturi yn apelio dim atti, yn genedl nad oes ganddi barch i Dduw na dyn. Cynrychiolir yr ogwydd arall—yr ogwydd grefyddol, yr ogwydd Gristionogol-grefyddol fel y gellir ei galw—gan y gwledydd gwrthwynebol. Nid yw Cristionogaeth, fel yn ddiau y teimla rhywun awydd i'n hadgofio, yn un o'r gwledydd hyn yn meddu'r dylanwad ellid ddisgwyl iddi. Ond y mae yma; y mae ei hegwyddorion a'i hyspryd yn golygu rhywbeth iddynt—i bob un o'r gwledydd cynghreiriol—i Loegr, i Ffrainc, i Rwssia. Dyma beth sydd wedi cymhell Lloegr i fyned i'r frwydr; y mae wedi myned iddi fel gwrthdystiad yn erbyn anghyfiawnder, i bleidio yr hyn sydd iawn, i amddiffyn y gwan, i ladd arfgarwch. Y mae hyn i gyd yn gydfynedol ag egwyddorion Cristionogaeth. Y mae'r ogwydd hon a'i cymhellodd i fyned i'r frwydr

Yn Ogwydd Hanfodol Grefyddol.

Y mae dyfodol Ewrop mewn ystyr gymdeithasol yn dibynu ar pa un o'r ddwy ogwydd hyn sydd i enill y dydd yn y frwydr bresenol. Os i Germani yr â y fuddugoliaeth, golyga hyn fuddugoliaeth hefyd i faterolaeth. Os i'r galluoedd cynghreiriol yr â, golyga hyn fuddugoliaeth i'r egwyddorion y saif y galluoedd hyn o'u plaid. Y mae'r cyntaf, fel yr wyf yn gyflwyr argyhoeddedig, yn esgor ar ddirywiad; yr ail, ar ddyrchafiad.

Felly, os nad yw'r frwydr hon yn frwydr derfynol rhwng y drwg a'r

da, y mae eto yn frwydr a all gyfyngu neu helaethu terfynau llywodraeth naill ai y drwg neu'r da. A dyna

Pam y mae y Frwydr Mor Bwysig

i ni—am y gall esgor naill ai ar ganlyniadau dinystriol neu ar ganlyniadau bendithiol. Yr olaf, fel y mae genym bob rheswm (pan yn ysgrifenu) dros obeithio, fydd y ffaith. Beth, yn gywir, fydd y canlyniadau bendithiol, y mae yn rhy gynar eto i ddyweyd; er y meddwn ryw syniad gyda golwg ar hyn hefyd. Gallwn ddarllen arwyddion ein hamserau i ryw bellder; a gwelwn, o leiaf, fod dyfodol hir o heddwch yn aros Ewrop. Y mae y rhyfel eisioes wedi esgor ar un daioni nad oedd y Prydeiniwr mwyaf gwladgarol erioed wedi gobeithio ei weled: y mae

Wedi uno'r Ymherodraeth Brydeinig

fel na fedrai dim arall wneyd. Hyd y torodd y rhyfel allan, nid oedd yr Ymherodraeth Brydeinig amgen nag enw, am wir werth yr hwn na feddai neb un syniad clir. Beth wneid gan y Trefedigaethau pe'r ymosodid ar y fam-wlad? Ni fedr neb ddyweyd. Ond medrwn ddyweyd heddyw: y mae'r holl Drefedigaethau, heb un eithriad, wedi codi fel un llaw i'w hamddiffyn a'i chynorthwyo. Y mae hyn yn galonogol iawn i bob carwr heddwch. Oherwydd yn yr unfrydedd hwn y mae y rhyfel presenol wedi bod yn foddion i'w amlygu gwelwn yn dod i fodolaeth allu a wna ryfeloedd, yn y dyfodol agos, yn anmhosibl tu fewn i derfynau ein Hymherodraeth. Mewn Ymherodraeth Brydeinig unedig, cydweithiol, y mae y gobaith cryfaf am ddyfodol heddychol, nid yn unig tu fewn i derfynau'r Ymherodraeth ei hun, ond hefyd yn yr holl fyd.

Gwyliedydd.

Tu hwnt i bob peth arall, y gwaith mwyaf pwysig sydd gan ddyn i'w wneud yn ei fywyd yw ffurfio ei garitor. Y mae caritor yn llai o rodd nag yw o gaffaeliad. Cynyrch ymdrech dyddiol yw. Daw ini fel canlyniad dyhead, penderfyniad a ffyddlondeb. Y mae'n rhaid ini ei enill: trwy weithio am dano, trwy weddio am dano. Gan hyny, y mwyaf pwysig o holl gyflawniadau yw caritor pur. Y dyn dynol yw'r dyn sydd wedi sicrhau meistrolaeth arno ei hunan. Fel y dywedodd Goethe, y bardd Almaenaidd, nid yw bywyd ond megys cwarre, allan o'r hwn y disgwylir ini foldio, a naddu a chyflawni caritor da.

IESU GRIST:

Beth Oedd Nod Mawr Ei Fywyd?—*Ioan xii. 23—25.*

Y mae Iesu yma yn dadgan mai gwirioneddau bywyd yw gwirioneddau natur, mai gorchymynion Duw yw damegion y maesydd ŷd. Fe ddywed rhai weithiau fod Cristnogaeth yn beth syml iawn, fod crefydd i gyd wedi ei symio i fyny mewn gwneud yn iawn, nad yw bod yn ddysgybl i Grist yn golygu dim mwy na dilyn ol traed y Nazaread ; ac os oes yna broblemau yn perthyn i'r Efengyl mai problemau yr Ewyllys ydynt, ac nid problemau y Deall. Hyny yw, y problem yw, nid gwybod beth sydd iawn, beth sydd dda, ond sut i gario allan yr iawn a adwaenwn. Mor bell ag mae hyn yn cyfeirio at brif egwyddorion Cristnogaeth, y mae yn berffaith wir. Mor bell ag y mae Cristnogaeth yn cael ei gosod allan yn Nhadoldeb Duw a Brawdoldeb Dyn, y mae yn syml a dealladwy, yn fwy clir na Chredo St. Athanasius, yn fwy dealladwy na dogmas yr eglwys, yn symlach na chyfresymau (syllogisms) yr Ysgolion. Ond y funyd y bydd dyn yn ceisio cyfleu yr egwyddorion hyn at ffeithiau a dygwyddiadau ymarferol bywyd, fe geir nad yw Cristnogaeth ddim mewn un modd mor syml ag yr ymddengys. Cristnogaeth yw dilyn Iesu, ond beth wnelai Iesu mewn unrhyw amgylchiad neillduol, nid yw bob amser yn hawdd penderfynu. Crefydd yw gwneud yn Iawn ; ond beth yw'r Iawn mewn unrhyw amgylchiad neillduol, mae yn broblem, oddigerth i'r rhai hyny a ystyriant fod yr Iawn yn gyfystyr a'u dymuniad hwy eu hunain.

Cyweirnod mawr Cristnogaeth ysprydol yw Hunan-ymwadiad, Hunan-ymostyngiad, Hunan-aberth.

Credo'r Groes

aralliaeth (altruism) egwyddorol aruchel yw, sydd yn anturio ei oll ar "roddi hunan i fyny." Pan fyddwyf fi gan hyny yn amddiffyn fy hunan, yn gosod arall yn isel yn hytrach na chael fy ngosod yn isel fy hunan, a ydwyf yn cario allan i ymarferiad egwyddor arbenig y Galilead pan yn dysgu hunan-ymwadiad? Ar bob gwryw a benyw sydd yn cymeryd ei broffes Gristnogol yn ddifrifol, bydd yr anhawsder hwn yn gwasgu gyda phwys byth-gynyddol ar adegau fel y presenol, oni fyddant wedi cyrhaedd rhyw wastadedd uwch lle mae'r gwrthebiad ymddangosiadol wedi ei gysoni mewn Ffydd eangach.

Y mae Henry Drummond wedi dywedyd fod yna ddwy egwyddor fawr yn mywyd pob dyn :—(1) Yr ymdrech am Fywyd ac (2) Yr ymdrech dros fywyd Eraill. I'r rhan fwyaf o ddynion y mae'r ddwy egwyddor hyn wedi cael eu Harch-offeiriaid, y naill yn

Darwin

a'r llall yn Iesu. Pwy neu beth sydd i benderfynu pa un o'r ddau hyn sydd i ddyfod allan ar unrhyw foment neillduol. Pan safaf wyneb yn wyneb a'r gelyn pa un o'r ddau archoffeiriad hyn y rhaid i mi ufuddhau iddo. Os dilynaf Darwin, ac yn sicr fe ymddengys yn beth rhesymol i'w wneud, ac ymdrechu am fywyd a thrwy hyny ddinystrio bywyd eraill, yr wyf yn ymddangosiadol yn ymwrthod ag Iesu ac yn ei wneud nid yn Arweinydd bywyd, ond Arweinydd rhan yn unig o hono—rhywbeth ychwanegol. Pan nad yw Darwin yn gorchymyn, caiff Iesu ein hufudd-dod. Pan na fo angen i mi ymdrechu am fywyd, ymdrechaf am fywyd ereill. Ai dyna ystyr a mesur ein Cristnogaeth? Os felly, dyma'r darlleniad diweddar—Duw ar y Sul a'r diafol ar y Llun.

Os na all Cristnogaeth ddyfod i'n bywyd, ond yn unig pan fo Darwiniaeth wedi myned allan, yna yn wir nid yw Cristnogaeth ond athrawiaeth marwolaeth, efengyl yn unig ar gyfer byd arall. Cyhyd ag y bydd bywyd ar y ddaear yn parhau, rhaid i'r ymdrech am fywyd fyned yn y blaen.

Ystyriaf fod geiriau ein testun yn cynwys gwrtheb (paradox) ac mae mewn ystyr gwrthebol yn unig y gellir dywedyd fod Cristnogaeth yn athrawiaeth Hunan-ymwadiad. Wrth ddarllen hanes Iesu o'r newydd yr wyf yn cael mai

NODWEDD FAWR

ei fywyd a'i weinidogaeth yw, nid Hunan-ymwadiad ond Hunan-fynegiant. Yn hanes y temtiad yn yr anialwch cawn ef yn gosod ei hunan yn erbyn dichellion y diafol ac yn buddugoliaethu drwy ei Hunan-fynegiant. Braidd yr oedd hwnt i drothwy ei gartref pan y cawn ei fam a'i frodyr yn brysio i osod eu dwylaw arno ac i atal ei weinidogaeth. Ystyrient ei weinidogaeth yn rhywbeth ynfyd, anturiaeth foesol hynod wedi ei chychwyn ar adeg ddifeddwl ie'nctid anystyriol, ac wedi ei ddeddfrydu i ddwyn trafferth a thrychineb yn unig. Cynghorant ef; ond try'r gwr ieuanc oddiwrthynt, gan ddywedyd mewn effaith, Nis gallaf wrando ar eich cynghorion. Rhaid i mi ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd. Gwaedda fy enaid am fynegiant. Rhaid i mi fod fy hunan. Pan yn gwynebu traddodiadau amddiffynwyr crefydd a gwirionedd, nid yw yn pryderu gosod ei *hunan* yn erbyn eu hawdurdod. Heria eu casgliadau, beia eu hymddygiad, cyhoedda wae uwch ben holl brogram eu proffesiadau. Pan yn troi oddiwrth faes crefydd at faes masnach, mae yn myned i fewn i'r deml ac yn beiddio dweyd wrth y masnachwyr eu bod yn gwneud ty Dduw yn ogof lladron, a gyr hwynt allan â fflangell o fân reffynau, a gwna ei hunan yn awdurdod yn erbyn holl arferion eu masnach. Pan y bygythiwyd ef y gosodai Herod ef i farwolaeth oni adai heibio ei eiriau prophwydol, mae ei ateb yn air o hèr—"Dos a dywed wrth y cadnaw hwnw fy mod yn bwrw allan gythreuliaid ac yn iachau cleifion heddyw ac yfory." I ba le bynag y dilynaf ef ar lwybr dyrys ei fywyd gweinidogaethol, yr wyf yn gweled dyn sydd yn mynegu ei hunan, nid yn drystiog a bostfawr, nac yn anfoesgar ymwthiol, ond gydag urddas personoliaeth anhraethol gryf. Gesyd ei hunan yn erbyn pob gallu arall yn Mhalestina ar yr awr hono, a gedy ei argraff ar bob gweinidogaeth mae'n gwrdd. A'r argraff a edy ei weinidogaeth ar fy meddwl i yw—nid Hunan-ymwadiad, nid rhoddi ffordd o flaen galluoedd eraill, ond hunan-fynegiant, ymwybyddiaeth o oruchafiaeth uwch pob gallu arall. Trwy'r Hunan-fynegiant hwnw y gwnaeth argraff mor nerthol ar feddwl ei oes, fel y dywedai pobl—"Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Mae yn llefaru gydag awdurdod, ac nid fel yr ysgrifenyddion.

Mae efengyl gweinidogaeth gyhoeddus Iesu i mi gan hyny yn

EFENGYL HUNAN-FYNEGIANT

cysegredig. Ac ing ofnadwy Gethsemane, nid ymdrech enaid sydd wedi arfer rhoddi ffordd o flaen galluoedd eraill yw; ni fyddai angen un ymdrech mewn amgylchiad o'r fath. I un cyfarwydd mewn Hunan-ymwadiad, byddai rhoddi ffordd yn beth naturiol ac arferol, ac ni fyddai Gethsemane yn dyst o un ing. Ni wnai'r "chwys gwaedlyd" wlychu yr enaid hoff hwnw. Ni chlywid un llef—O Dad, aed y cwpan hwn heibio, yn codi ar awyr y nos. Yr oedd y rhai hyn yn ingoedd, yn ymdrechion, yn weddiau, am fod un ag oedd hyd hyny wedi llwyddo yn ei hunan-fynegiant a phrofi ei hunan yn oruchaf, i bob ymddangosiad wedi ei atal.

"DAETH YR AWR"—

Pa awr? Yr awr feallai i ysgrifenu

Efengyl newydd, yr awr, yn ymddangosiadol, i hunan-fynegiant orfod rhoddi ffordd i hunan-aberth, yr awr pan fyddai'r gorchfygwr yn groeshoeliedig.

Ac eto, ai felly'r oedd? Pan gododd Iesu ar ol gweddi'r hwyrnos hynod hono, cododd gyda gweledigaeth cliriach. Gwelodd y Gorchfygwr yn y croeshoeliedig. Fel canlyniad gallai wynebu Pilat yn y llys, nid fel dyn di-egni, difywyd, yn rhoi pob peth i fyny; ond yn gryf, yn benderfynol, yn dal wrth bob peth oedd yn wir werth dal wrtho—anrhydedd, uniondeb, a'r fath ardderchogrwydd enaid ag a'i gwnai braidd yn feiddgar, ac i ddweyd, "Nid oes genych yr un awdurdod arnaf fi. Gwnewch eich gwaethaf. Nis gallwch fy niweidio." Daeth yr awr—nid i hunan-aberth, ond i'r arddangosiad ardderchog o hunan-fynegiant, goruchafiaeth yr hunan ar y corff, yr yspryd ar yr enaid, pob peth ag sydd yn neillduol ddwyfol ar weddillion y greadigaeth anifeilaidd sydd yn parhau i ddangos eu hunain yn y corff a'i gysylltiadau. Daeth yr awr y gogonedder Mab y Dyn. Yn ddiofal o'r canlyniadau i'r corff, wedi ei waredu oddiwrth holl ofynion dymuniad, gallai'r enaid yn awr roddi mynegiant i'w ardderchogrwydd, fel y byddai'n bosibl hyd y nod i amheuwr aros a synu arhyfeddu. A daeth Iesu yn Iachawdwr drwy hunan-fynegiant cysegredig - mynegiant enaid, mynegiant o natur hunan y dyn. Canys

Gwir Hunan y Dyn

yw'r hyn a berthyn i'r byd a'r bywyd uwch. Yr hwn sydd yn caru ei einioes a'i cyll hi; a'r hwn sydd yn casau ei einioes yn y byd hwn a'i ceidw hi i fywyd tragwyddol.*

Yn awr y mae gan fywyd yr yspryd i fynegu ei hunan, i argraffu ei hunan ar bob meddwl a gweithred, a pha fwyaf trwyadl y gwneir hyny, ardderchocaf i gyd fydd y dyn. Nid wyf am godi cweryl ag un dyn am ei fod yn mynegu ei hunan yn ormodol. Fy nghweryl i ag ef yw nad yw yr hunan mae yn fynegu yn ddigon urddasol; pan y mae yn hunan Judas ac nid yn hunan Iesu, yn hunan y corff ac nid yn hunan yr yspryd.

Amcan Mawr Bywyd

yw perffeithiad dynoliaeth. Sut y gallwn ni berffeithio dynoliaeth, oni wnawn yn gyntaf berffeithio ein hunain? Y mae i bob un ei genadwri benodol ei hunan yn y byd. Y mae genych chwi waith nad oes neb all ei wneud ond chwi eich hunan. Sut y gellwch wneud hyny oni wnewch chwi stampio eich hunan ar eich cyfoedion fel yr unig gyfran ellwch chwi ei roi tuag at wareiddiad y byd,—

To thine own self be true,
And it must follow as the night the day
Thou canst not then be false to any man.

Ar wastadeddau uwch dynoliaeth nid oes y fath beth a deuolaeth yn y natur ddynol. Yr ymdrech am fywyd a'r ymdrech dros fywyd eraill, nid ydynt ddau ddyledswydd ond un ddyledswydd; a'r ddyledswydd hono yw hunan-gadwraeth a hunan-gwrtaeth. Ond ar y gwastadeddau uwch ni ellir cael hunan-gwrtaeth ond trwy dosturi a chariad a helpu'r naill y llall.

Holl weithredoedd y corff, atebion ydynt i gymhellion allanol. Teifl gwrthryfel ei hun ar rwyllen (retina) y llygad, a gweithredwn ninau mewn

---

* Sylwer ar y gair "einioes" a'r gair "bywyd." Yn y Saesneg "Life" sydd am y ddau. Ond y mae'r ystyr yn wahanol yn y ddau le. Bywyd y synwyrau olygir wrth y gwreiddiol am einioes, tra mae'r gwreiddiol am y gair bywyd yn golygu bywyd yr yspryd, bywyd yr yspryd yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw.

ateb i'r cymhellai hwnw—ein diogelwch neu ein perygl yn dibynu ar ba un a fydd ein gwaith yn ateb iawn neu na fydd. Pan gyffyrddo ein bys a'r tân, y teimlad yw cymhellai'r tân, a thynu'r bys yn ol yn frysiog yw'r ateb i'r cymhellai. Atebion i gymhelleion allanol yw holl weithredoedd y corff, ac yr ydym yn dadblygu ein pump synwyr wrth arfer ein hunain i roi atebion parod.

Felly y mae gyda hunan-gwrtaeth, canlyniad i'r atebion a roddwn i'r cymhelleion allanol; ond yma nid yr elfenau, nid gwrthrychau difywyd yw'r cymhelleion allanol. Tristwch y byd ydynt, golygfeydd tosturi, gwrthrychau, bodau wedi eu stampio â sêl llaw brenin. Wrth ateb iddynt yr ydych yn wir yn helpu eraill, yn ymdrechu dros fywyd eraill, ond yr ydych drwy hyny yn dadblygu eich hunan gwirioneddol, yn ei ddadguddio, yn rhoi mynegiant iddo, gan ddangos ardderchogrwydd eich enaid. Ac mewn llawer i "Hospital Ward" y mae'r meddyg yr awrhon yn hunan-fynegu, drwy osod stamp ei fedrusrwydd, ei enaid, ar y corff gwaedlyd, ac yn gosod ei stamp ei hunan ar y cleifion yn fwy dwfn na stamp marwolaeth.

Y mae amser yn dyfod, pan, er mwyn bod yn ffyddlon i ni ein hunain, y rhaid i ni aberthu'r corff—ein corff ein hunain neu eiddo ereill, aberthu rhwymau daearol, bodolaeth ddaearol; ond y mae'n bryd i mi orphen son am yr aberthau materol hyn, fel *hunan*-aberth. Materolwyr yn unig allent ddyfeisio'r fath iaith. Yr wyf yn gwrthod cydnabod fy hunaniaeth yn yr hyn a welaf yn y *looking-glass*. Pan syrthio'r gronyn gwenith i'r ddaear, y plisgyn allanol yn unig sydd yn marw. Nid yw'r gronyn gwenith yn marw. Mae'n byw mewn cant o ronynau tebyg. A phan fyddo dyn neu genedl yn myned i'w Golgotha yn hytrach na diraddio ei anrhydedd, ei uniondeb, ei enaid, nid hunan-aberth yw, ond hunan-gadwraeth—

GWIR HUNAN-GADWRAETH

nad oes eisieu i neb fod a chywilydd o'i blegid. Hunan-gadwraeth yw ar y gwastadeddau uwch—sydd yn parotoi eneidiau mawrion i Dduw. Dim ond ar adegau o'r fath y mae'r Hunan Dwyfol yn dangos ei fawredd. Yna gellir dywedyd—Daeth yr awr a gogonedder Mab y Dyn. Gwelir dynoliaeth ar uchelfan ei ymgysegriad. Pan y beiddia'r corff fyned i'r bedd yn enw Duw, mae'r corff wedi codi. Y mae pob peth sydd yn gwneud i fyny y gwir fywyd yn aros, ac ni allai aros ond yn unig am ei fod wedi beiddio rhoddi i fyny yr ansylweddion er mwyn cynydd y sylweddion. Bydd ffyddlon i dy hunan. "Yr anghrediniaeth fwyaf ofnadwy yw yr anghrediniaeth ynot dy hunan," —(Carlyle). Ti elli gyflwyno dy rodd dy hunan bob moment ar allor gwareiddiad gyda nerth byth-gynyddol bywyd cyfan. Hunan-barch, hunan-adnabyddiaeth, hunan-lywodraeth—y tri hyn a arweiniant i orsedd llywodraeth y Gwir Fywyd.

U.C.S.

Preached at Unitarian Church, S. Oct 1914 by

a translated by R. J. J.

Ti'r Hwn wyt yn y nef yn byw,
'R Hwn yrri, 'nol d'ewyllys wiw,
Rhyw un i'r nef a deg i r tân,
Oll er d'ogoniant,
Ac nid am unrhyw ddrwg neu dda,
A gyflawnasant.

—*Rob. Burns.*

Rhoddir mynegiad aml yn y Beibl i'r gred mewn bod dieflig. Nid yw cymeriad neu natur y bod hwn yr un peth yn yr oll o'r llyfrau. Yn Genesis, er enghraifft, desgrifir ef fel sarph, yn twyllo Efa i bechu. Yn llyfr Job, ymddangosa ger ein bron fel gwasanaethwr Duw, amcan yr hwn oedd profi dynion ; yn hanes temtiad Iesu, fel person—dynol yn debygol ; yn un o'r Epistolau, fel llew rhuadwy. Nid yw'r syniad hwn, ychwaith, yn gyfyngedig i'n Beibl ni. Ceir ef yn Meiblau ereill y byd yn ogystal. Golyga hyn fod y syniad am fod dieflig yn bodoli yn mhob oes. I ni heddyw

Y mae'r Gred Hon Wedi ei Gwneud yn Anmhosibl

gan y syniadau cywirach sydd wedi dod i'n meddiant am y bydysawd ac am gymeriad ei lywodraethwr. Ond ar yr un pryd nid yw yn un syndod fod y fath gred yn bodoli. Nid yw yn un syndod, fodd bynag, i rai ydynt wedi gwneuthur astudiaeth gweddol drwyadl o'r natur ddynol yn ei hamrywiol agweddau. Dywedwn ni fod dyn o ddwyfol darddiad ; neu, fod y natur ddynol, yn yr agwedd ysprydol o honi, o'r unrhyw natur ag eiddo'r Bod Dwyfol ei hun. Y mae hyn, fel y credaf, yn hollol gywir. Anmhosibl ydyw i ni lai na chredu ei fod yn gywir cyhyd ag y credwn mewn Bod Dwyfol perffaith ddaionus fel llywodraethwr y bydysawd. Mewn llawer o achosion, nid oes un anhawsder i ni i gredu hyn. Pan y meddyliwn am fywyd Iesu, neu am fywydau tebyg iddo, ni chawn un anhawsder i ddyweyd,—y mae bywyd y dyn yna yn un dwyfol ; dyna'r amlygiad goreu sydd genym o gymeriad y Bod Dwyfol. Ond pan y sylwn ar ddyn mewn agweddau llai dymunol, nid yw dyweyd hyn yn beth mor hawdd. Tywyllir ein hawyrgylch heddyw gan un o'r rhyfeloedd dinystriol ag y mae hanes yr hil ddynol wedi ei lychwino ganddynt.

Beth Welwn yn yr Ysgarmes Waedlyd Bresenol—

ysgarmes nad oes neb fedr ddyweyd beth fydd y canlyniadau o honi? Gwelwn nwydau yn cael eu deffroi—nwydau a amlygant ddyn i ni fel anghenfil creulawn ; gwelwn ddioddefaint, nad yw'r desgrifiadau geir yn ein newyddiaduron, ond adlais gwan o hono—dioddefaint ag y mae yn hawddach ei ddychmygu na'i ddesgrifio mewn geiriau ; gwelwn ddinystr ar eiddo nad yw yn bosibl amgyffred ei faint ; a gwelwn wareiddiad yn cael ei ddileu, a'r ddynoliaeth yn syrthio yn ol yn mhell i'r barbareiddra o'r hwn y mae wedi ymgodi ; mewn gair, unwaith yr eir tu fewn i swn y fagnel a thrwst y cledd, enhuddir elfenau goreu ein natur, a daw'r nwydau gwaelaf i'r orsedd. Gwelir hyn i gyd yn mhob rhyfel ; ac fe'i gwelir yn y rhyfel presenol ar raddfa a bair i ryfeloedd y gorphenol syrthio i ddinodedd. Pa ryfedd fod dynion, yn mhob oes, wedi credu mewn diafol fel achosydd yr agweddau anymunol hyn?

Y mae'r Gred Hon yn cyflym Gilio i'r Cysgodau,

i'r hon y cilia pob cred amrwd. Ond y mae'r ffaith y bwriedid i'r gred ei hegluro yn aros. A'r ffaith yw hon—fod yn y natur ddynol elfen neu elfenau ar y rhai y mae'r enw diafol yn enw addas. Yr elfenau hyn yw y rhai a barant iddo fod yn greulawn, yn ddigofus, yn llidus, yn eiddigeddus—mewn gair, yn bob peth ond yr hyn sydd dda a dymunol. Y mae'r elfenau hyn yn gryf yn y natur ddynol ; y maent gryfaf yn y natur ddynol yn ei chyflwr barbaraidd, a gwanaf yn y dynion aidderchog a

harddant hanes yr hil ddynol ; ond y maent ynom ni i gyd. Fel y sylwyd, nid yw'r elfenau hyn un adeg mor amlwg ag mewn rhyfeloedd rhwng cenedloedd. Diau ein bod ni, sydd bell o ganolbwynt y frwydr bresenol, wrth ddarllen yr hanes o ddydd i ddydd, yn dychrynu wrth feddwl am yr erchyllderau. A synwn, o bosibl, na allai ein llywodraethwyr drefnu eu hamgylchiadau heb roi ffordd i'r fath nwydau. Pam na allent arfer tipyn mwy o reswm, a gwneud yr hyn sydd iawn, heb dywallt gwaed ac achosi'r fath drueni? Nid oes eisieu i ni, fodd bynag, i synu cymaint oblegid hyn, pan ystyriwn mor anmheriffaith yw dyn ar y goreu. Nid oes eisiau i ni synu oblegid hyn, oherwydd y mae yr un elfenau ag sydd yn arwain gwleidydd i'r fath ryfeloedd dinystriol a gwaedlyd a'r un presenol yn llywodraethu dynion i raddau llawer gormodol hyd yn oed yn rhodfeydd llai amlwg cymdeithas. Dyna ddau ddyn yn anghydweled yn nghylch rhyw fater—dibwys efallai—yn eu perthynas â'u gilydd fel aelodau o gymdeithas. Beth sydd yn debyg o ddigwydd? Ydyw'r ddau yn debyg o fyned at eu gilydd mewn ysbryd brawdol i ymdrin ag achos yr anghydwelediad, fel ag i gael gafael yn y graig rhwystr, a'i symud, a gwneud yr hyn sydd iawn? Cymer hyn le weithiau ; ond anaml iawn y mae'r

Elfen Ddieflig sydd yn y Natur Ddynol

fynychaf yn arwain dyn i ddymuno am ddialedd, am oruchafieth, i ladd, i labyddio, i ddinystrio. Dyma'r elfen sydd wrth wraidd pob rhyfel, a phob anghydwelediad cymdeithasol, ac elfen anymunol iawn ydyw. Dyledswydd gyntaf y dyn ag y mae Cristionogaeth yn golygu rhywbeth iddo yw gwrthwynebu'r elfen hon a lecha yn ei natur. Y mae hon yn ddyledswydd Gristionogol mewn ystyr wleidyddol. Cyhyd ag y parha'r elfen ddieflig i lywodraethu ymddygiadau gwledydd at eu gilydd, nid yw Cristionogaeth iddynt amgen na llythyren farw. Y mae, hefyd, yn ddyledswydd Gristionogol yn holl gysylltiadau cymdeithasol dyn. Cyhyd ag y llywodraethir dyn gan yspryd dial, y mae Cristionogaeth yn ddieithr iddo, oherwydd yspryd Cristionogaeth yw'r yspryd a arweinia ddyn i arfer ei reswm mewn pob math o anghydwelediadau, i wneud yr hyn sydd iawn gan nad beth y canlyniad, i feithrin maddeugarwch yn y galon. A dyna'r ffordd oreu, credwn ni hyny ai peidio. Graddol iawn y mae'r ddynoliaeth yn dod i'r cyfiwr hwn. Weithiau, pan y meddyliwn ei bod yn nesau ato gyda chamrau breision, fe deflir rhyw rwystr ar y ffordd, a gwthir y ddynoliaeth yn ol megis i farbareidd-dra. A phan y gwelwn hyn, y mae pob ffydd a ddichon fod ynom am foment yn cael ei enhuddo. Ond anmhosibl yw credu, er hyn, mai'r elfen ddieflig sydd i gael y fuddugoliaeth. Na,

Y Mae'r Dwyfol sydd yn y Dyn i ddod i'r Orsedd.

Os ymddengys hyn yn mhell o sylweddoliad yn awr, mwyaf i gyd yw y rheswm dros ddyblu'r diwydrwydd, dros ddyfnhau'r ymdrech. A pho drylwyraf yr ymdaflwn i'r ymdrech, cryfaf i gyd fydd y ffydd a enynir ynom ganddi na fydd yn ofer.

Pererin.

Tywyna'r haul ar fwth y tlawd
Mor ddysglaer ag ar balas teyrn.

DYCHWELIAD CAETHIWED BETHEL.

[NOFEL FUDDUGOL WEDI EI SEILIO AR DDIGWYDDIAD ADNABYDDUS]

GAN HENRY MACHNOG JONES, LLANDYSSUL.

III.

Tuallan ychydig i bentref Llwyn-y-groes, 'roedd y Castell, adeilad harddaf y fro, yn sefyll ar fryn ; tucefn iddo 'roedd coedwig, is-law, 'roedd afonig fechan yn ymdroelli'n araf araf ar ei thaith i'r môr. Hen gastell adfeiliedig oedd y Castell, wedi ei ail-adeiladu gan ddisgynyddion yr hen bobl breswylient ynddo yn yr hen amser fu, y rhai enillasant anrhydedd mawr i'r teulu, trwy eu gwroldeb ar faes y gâd.

Enw'r "gwr boneddig" breswyliai ynddo yr adeg hon oedd Mr. Frederick Thomas ; er ei fod o linach Gymreig ni theimlai fawr o ddyddordeb yn mhobl yr ardal, nag yn y ffermwyr ar ei ystâd, 'r oedd hyny i'w briodoli, o bosibl, i'r ffaith ei fod wedi ei addysgu mewn ysgolion a cholegau hwnt i Glawdd Offa. Er hyny nid oedd un digter wedi ei fagu yn ei galon y pryd hyny, fel dengys y ffaith fod Peredur, mab Merwydd Owen, wedi cael lle fel athraw i blant y Castell. Cyfaddaswyd ef i'r gwaith trwy addysg gan ei dad, a manteision eraill uwch na'r cyffredin o'i safle yn yr oes hono.

Er fod yr Yswain yn Eglwyswr selog, yn myn'd unwaith y Sul i'r Eglwys, yn ol dull pawb o'i fath ; ac yn Geidwadwr, eto yr oedd parch neillduol ganddo i Peredur, ac hefyd i'w dad, Merwydd Owen. Ond pan ddaeth dan ddylanwad eraill o'r un safle yn y wlad, dynion oeddynt enwog fel gorthrymwyr, oerodd ei gariad at Merwydd Owen pan wybu ei fod yn arweinydd y werin yn erbyn trais a gormes tir-feddianwyr ei oes ; meithrinwyd ynddo gasineb at Ymneilldu-aeth, fel erbyn hyn nid oedd dim i'w ddisgwyl yn ardal Llwyn-y-groes, ond ail-adroddiad o hanes torcalonus ardaloedd eraill y Sir o dan wialen y gormeswyr ; oherwydd erbyn hyn, ei brif elyn oedd Merwydd Owen, am fod y pregethwr yn araf araf leihau ei bwysigrwydd ef yn yr ardal, ag fod y proffwyd o Bethel, trwy ei lafur dibaid o blaid y gwirionedd yn ei bregethau tanllyd, ag yn uwch na'r cyfan oll, ei gymeriad difrychau, yn araf ddwyn yr hen ddihareb i sylweddoliad,

"TRECH GWLAD NAG ARGLWYDD."

Y frwydr elai yn mlaen yn meddwl gwr y Castell oedd ceisio penderfynu pwy oedd i fod yn ben, ai efe neu ynte Merwydd Owen. D'wedai ynddo ei hun, Fy eiddo i yw yr holl wlad yma, ac hyd yn oed y tir y codwyd Bethel arno. Pa'm na all y dyn hwn bregethu efengyl didramgwydd bob Sul fel y gwna Mr. Pryce yn yr eglwys i ni. Clywais gan ddynion wyf yn credu eu gair fod Mr. Owen, yn dweyd mai eiddo y bobl y ddaear, a bod gwerinwyr syml yn gymaint o werth i'r wladwriaeth a dyn fel myfi. Os â pethau yn mlaen felly, os gadawaf lonydd iddo, ddweyd y pethau ffol ac eithafol hyn, ni fydd neb yn y wlad yma yn edrych i fyny tuag at deulu'r Castell. Sylwyd eisoes nad yw'r gweithwyr yma yn agos mor ostyngedig ag y buont, a dyma'r tenantiaid, ar ddiwrnod talu'r rhent braidd nad ydynt yn ystyried eu bod yn gwneud cymwynas a mi. Ac y mae Mr. Jones, yr *Agent*, yn dweyd mai

GWEINIDOG BETHEL

sydd yn gyfrifol am hyn, a dylai efe,

o bawb, fod yn dawel, onid trwy fod yn athraw yn y Castell mae ei fab yn enill ei fywioliaeth. 'Dyw peth fel yna yn ddim byd ond hau hadau chwyldroad, a beth ddeuai o'r wlad yma pe cai'r gweithwyr a'r tenantiaid le a llais? Pwy wnai ofalu am y fyddin? Onid yw Tomosiaid y Castell wedi arfer ymladd dros y brenin? Mae genyf feddyginiaeth at hyn, nid da genyf ei defnyddio, ond beth sydd i'w wneud; gyraf yr *Agent* a'r newydd i'r gweinidog yfory.

IV.

Dranoeth pan oedd Merwydd Owen wrtho ei hun yn ei gartref, ei wraig newydd adael i fyned ar neges i'r pentref, clywai guro wrth y ddôr, aeth i ateb, pwy oedd yno ond goruchwyliwr y Castell. Aml dro y bu yno o'r blaen; ond y tro hwn, 'roedd rhywbeth hollol wahanol ynddo i olwg Merwydd Owen, er hyny cyfarchodd ef yn foneddigaidd; gyda hyn, dyma'r goruchwyliwr yn gofyn iddo yn sarug, "A gaf siarad a chwi yn gyfrinachol, am ychydig amser." "Gyda phob pleser, dewch i mewn i'r fyfyrgell," meddai Merwydd Owen. Aethant i mewn, cauwyd y ddôr, buont yno am agos awr o amser; 'roedd gwedd y goruchwyliwr yn myned allan yn hollol wahanol i'r hyn oedd pan aeth i fewn; 'roedd y wên wawdus welid ar ei wynebpryd, wedi ei diorseddu i roddi lle i ddifrifoldeb; y pendantrwydd feddai pan ddechreuodd ymddiddan a Merwydd Owen, wedi ei lwyr adael; ymadawai a'r fyfyrgell hen ffasiwn, a gwedd un wedi ei orchfygu arno; a diameu ei deimlad oedd ei fod wedi syrthio i afael un nad oedd yn syndod ei fod yn arwr yr ardal.

Ar hyn daeth Mrs. Owen yn ol, gwelai ar wyneb ei phriod fod rhywbeth wedi ei gynhyrfu i'r gwaelodion, 'roedd ei edrychiad yn ei hadgofio am ambell araeth draddodedig o'r llwyfanau gwleidyddol yn yr ardal, pan wedi ei godi i dir uchel argyhoeddiadau, a'i enaid ar dân dros hawliau'r werin. Cyn iddi gael amser i ddweyd dim wrtho, dywedodd wrthi, "Welsoch chwi oruchwyliwr y Castell? Newydd fyned allan y mae, mae'r gwr boneddig wedi ffromi yn fawr wrthyf, ag wrth siarad y goruchwyliwr, mae llawer o esgusodion mân ganddo dros honi ei hawl gyfreithiol i'n taflu allan o Bethel; byddai yn well o lawer iddo ddweyd yn onest ei fod yn ddig wrthyf, a'i fod yn benderfynol o'n gyru allan o'n capel; er hyny 'rwy'n penderfynu glynu wrth fy nyledswyddau fel Cristion a dinesydd."

Yr oedd y dagrau erbyn hyn yn dechreu treiglo dros ruddiau ei wraig, ac fel pob mam, y peth cyntaf ddaeth i'w meddwl oedd ei mab, ag meddai mewn llais crynedig, "Beth ddaw o Peredur? Digon tebyg y bydd raid iddo yntau ddioddef ar ol hyn," meddai Merwydd Owen, yn berffaith hunan-feddianol, er mai hawdd oedd canfod wrth dôn ei lais, fod ei deimladau cymysglyd bron a'i lethu. Nid oedd hyn ond

Dechreu yr Ystormydd

oedd i ddyfod i'w gyfarfod, a gwyddai Merwydd Owen hyny'n ddigon da. A mawr oedd y gofid lanwai ei galon wrth feddwl am Bethel, ac wrth geisio cuddio ei ofid rhag ei wraig. Y noson ddilynol 'roedd cyfarfod gweddi yn Bethel, gan fod y son am yr hyn oedd yn eu haros wedi cyrhaedd trwy y fro yn gyffredinol, gwelid pawb yn ceisio ymlwybro i Bethel y noson hono, er mwyn cael gwel'd pwy ddatguddiad newydd fedrai eu gweinidog roddi iddynt. Aeth y cyfarfod yn mlaen fel arfer, er fod ambell weddi daer am nerth Duw i ddangos y llwybr iddynt i beidio gwneud dim yn erbyn eu cydwybodau er enill ffafr dynion. Ond prif atdyniad y cyfarfod oedd Merwydd Owen, a mawr oedd disgwyliadau y bobl am weled terfyniad y cyfarfod, i glywed a oedd llawer o'r ystoriau a adroddid o dŷ i dŷ yn ardal Llwyn-y-groes yn wirioneddol.

O'r diwedd cawsant eu dymuniad, safodd Merwydd Owen ar ei draed ddiwedd y cyfarfod, heb un osgo ei

fod yn cilio yn ol mewn dim a wnaeth, nag a ddywedodd erioed ; ag fel un cwbl argyhoeddedig fod un o frwydrau mwyaf ei hanes, ie, a mwyaf welodd y gymydogaeth, yn ei aros ; un oedd i newid cwrs yr ardal yn gymdeithasol, gwleidyddol a chrefyddol. Dechreuodd ar ei anerchiad :—"Anwyl frodyr a chwiorydd :—Fel y gwyddoch, mae'n rhaid i ni fel aelodau yma wneud un o ddau beth, naill a'i gwerthu ein hargyhoeddiadau, neu ynte ymladd drostynt ar draul colli ein hawl yn ein Capel ; mae goruchwyliwr y Castell wedi bod gyda mi. Pethau eraill oedd y gŵyn oedd ganddo yn ein herbyn, ond nid oedd hyn i gyd ond digter dan gudd. A ydym ni ynte i fod yn dawel, neu i ymladd hyd angeu os bydd eisiau dros ein hiawnderau ?"

'Roedd arwriaeth yn llond calon yr aelodau y noson hono, pob un wedi ei gynhyrfu, ag wedi dyfod i'r teimlad hwnw, ei fod yn barod i ymladd hyd angeu, yn hytrach na phlygu glin i ormeswr. Aeth hanes y cyfarfod i glustiau'r Yswain ; cryfhaodd hyn ei ddigter, aeth ei deimladau yn chwerwach fyth at Merwydd Owen. Lle gwael oedd mwyach i Peredur yn y Castell, 'doedd dim i ddisgwyl ond i'r cymylau duon, oeddynt grogedig uwchben y ddeadell fechan yn Bethel, i dori yn ystormydd dialeddus arno ef, ag i hyny y daeth, oherwydd yr ail noson ar ol y cyfarfod gweddi yn Bethel, danfonwyd Peredur oddiwrth ei oruchwyliaeth, er mawr ofid i deulu Merwydd Owen.

(*Pw barhau*).

YR AGWEDD GREFYDDOL AR GWESTIWN Y RHYWIAU.

GAN Y DR. D. J. DAVIES, B.A.

Yn ystod y blynyddau diweddaf hyn, mae'r cwestiwn hwn wedi cael sylw anarferol. Buddiol, efallai, fydd gofyn i ni ein hunain beth sydd gan grefydd i ddweyd ar y mater. Hyd yn ddiweddar lliwid meddyliau pobl grefyddol, neu y rhai hawliant fod yn grefyddol, ar y mater i raddau helaeth iawn gan ysgrifeniadau Paul ; yn wir, bron na ellir dweyd nad oedd gan y mwyafrif mawr o honynt feddyliau ereill ar y mater o gwbl. Cymerent hwy bron yn llwyr oddiwrtho ef heb gymeryd y drafferth i feddwl drostynt eu hunain. Yn awr, tra mae Paul yn y rhan fwyaf o'i gynghorion yn gwella llawer ar arferion ei oes ac yn deilwng o'i ddilyn hyd yn oed yn yr oes hon, yn hyn o beth mae lle i ofni ei fod wedi boddloni ar safon gyffredin yr amser oedd yn byw ynddo, ac na wnaeth fawr ymdrech i godi dynolryw i dir uwch ar y pwnc hwn. A'r gwaethaf yw fod y mwyafrif mawr o fobl, yn enwedig o ddynion, yn boddloni ar yr un safon o hyd, er mor gymharol isel yw.

'Roedd Paul yn ddyn mawr yn ddiameu mewn amryw ffyrdd, ond os am wel'd ei gryfder peidiwn cymeryd ei ddysgeidiaeth am y rhyw fenywaidd nac am y cysylltiad ddylai ffynu rhyngddi hi a'r rhyw arall. Yn hyn nid oedd wedi codi fawr, os dim, yn uwch na'i oes, a dengys lawer o ragfarnau y gwryw cyffredin yn erbyn y rhyw deg. Mae'n bosibl ei fod wedi bod yn anffortunus yn ei brofiad o rai aelodau o'r rhyw, ond tebycach yw iddo fabwysiadu syniadau cyffredin yr oes am danynt a'r rhagfarnau arferol yn eu herbyn, heb wneud nemawr os dim ymdrech i wella arnynt.

Yn anffodus, mae'r byd Cristionogol

fel cyfangorph trwy yr oesau wedi cymeryd ei safon ef fel y safon iawn, ac wedi edrych ar fenyw fel creadur israddol i ddyn, ac fel canlyniad wedi ei chadw mewn sefyllfa israddol iddo. Nid oedd hyn ond peth eithaf naturiol i ddisgwyl pan ystyriwn fel yr edrychid ar y Beibl trwy y canrifoedd, ac fel yr edrychir arno gan y mwyafrif mawr o hyd. Hyny yw, edrychid arno fel llyfr wedi ei ysprydoli mewn modd nodedig, ac os nad wedi ei ysgrifenu gan Dduw ei hun, eto gan ddynion oeddynt dan ysprydoliaeth uniongyrchol Duw, a'r rhai nas gallent felly wneud un camsynied. Cymerid yn ganiataol fod pob hanes sydd yn y Beibl yn llythyrenol wir, ac ystyrid fod pob addysg geir ynddo a phob gorchymyn gynhwysa—pa un ai cadarnhaol ai nacaol fyddo—yn unol ag ewyllys Duw. Felly, pan welodd y Cristionogion boreu, a Christionogion pob oes a gwlad, i raddau mwy neu lai, beth oedd y gorchymyn roddodd Paul i'r Colossiaid ar y pen hwn, yn nghyd ag addysg a gorchymynion ereill o gyffelyb natur, nid oedd efallai ond naturiol iddynt eu cadw yn llythyrenol, gan anghofio mai lladd wna y llythyren tra mae'r yspryd sydd yn bywhau.

Ni wnawd un ymchwiliad gan y mwyafrif mawr o Gristionogion i mewn i'r cwestiwn a oedd y gorchymynion hyn yn foesol iawn a'i peidio, ac yn unol ag addysg uchelfrydig yr Iesu a chymeriad y Tad goreu; na, digon iddynt hwy y ffaith fod y gorchymynion hyn i'w cael o fewn cloriau yr hen Feibl sanctaidd, a digon yw i lawer o hyd. Pa mor annaturiol neu afresymol bynag y gall gorchymyn neu addysg fod, os bydd yn y Beibl, ni chodir un amheuaeth yn ei gylch, eithr yn hytrach derbynir ef fel gwirionedd ysprydoledig gan y mwyafrif o fobl o hyd. Nid yw yn syndod o gwbl ynte fod y byd Cristionogol fel cyfangorph wedi cymeryd addysg Paul yn y fan hon, a manau ereill, fel safon yn eu hymddygiad tuag at y rhyw fenywaidd, a'u bod wedi ymestyn a chymhwyso yr addysg hon yn yr yspryd ddangosir yma at bob adran o fywyd.

Gadewch i ni gael edrych ar y ddwy adnod gynhwysa addysg Paul ar ddyledswydd gŵr a gwragedd tuag at eu gilydd. "Y gwragedd," meddai, "ymostyngwch i'ch gŵr priod, megis y mae yn weddus yn yr Arglwydd." Ond wrth y gŵr dywed: "Cerwch eich gwragedd, ac na fyddwch chwerwon wrthynt." Sylwch ar y gwrthgyferbyniad yn y ddau orchymyn. Mae y gŵr i garu eu gwragedd, mae'n wir, ac i beidio bod yn chwerw wrthynt, fel ag yr oeddynt, ond nid i'r un graddau, efallai, i garu y creaduriaid mudion israddol iddynt, ac i roi rhyw gymaint o ffrwyn ar eu tymer ddrwg tuag atynt pan fyddai achos am hyny; ond y mae y gwragedd, ar y llaw arall, i ymostwng i'w gŵr priod, i'w harglwyddi fel pe dywedai, ac ufuddhau yn mhob peth iddynt, fel y disgwylir i'r creaduriaid direswm, fel eu gelwir gydag ond ychydig wirionedd yn fynych, i ufuddhau ac ymostwng i ddyn. Mae y ddau ryw, felly, fel y gwelwch, ar dir hollol wahanol i'w gilydd. Y gwryw yw arglwydd y greadigaeth, wrth gwrs, yn ol y ddamcaniaeth hon, fel yn ol y dyb gyffredin: efe sydd i reoli a llywodraethu y bydysawd, ac y mae pobpeth arall yn israddol iddo, yn wir, wedi ei greu i'w wasanaethu ac i weini i'w bleserau; ac yn mhlith y pethau ereill hyn y mae menyw, yr hon sydd wedi cael ei rhoddi i ddyn fel rhyw degan prydferth ar un llaw, i'w ddifyru, a'i ddiddanu, a'i bleseru, ac ar y llaw arall, fel rhyw fath o gaethwas, i'w wasanaethu—i weini arno, ac uwchlaw dim i fod yn ufudd a gostyngedig iddo. Un o'i phechodau mwyaf, yn ol y dyb hon, oedd beiddio bod yn anibynol, beiddio meddwl a siarad a gweithredu drosti ei hun heb ofyn caniatad neu gynghor iddo ef.

(*Iw barhau*).

MISS EMILY SHARPE.

Ganwyd yn 4, Canonbury Place, Llundain, Gorphenaf 21, 1828.

Bu farw yn 32, Highbury Place, Llundain, Hydref 17, 1914.

Un o oreuon y ddaear. Cymhara un hi a Mary Carpenter. Ac yr oedd yn ddiameu lawer o bethau yn y rhai yr oeddynt yn debyg, a rhai wrth gwrs lle'r oeddynt yn wahanol iawn. Dwy fenyw ardderchog oeddynt. Dylai Undodiaid Cymru yn arbenig deimlo parch neillduol at Miss Sharpe, yr hon drwy ei hoes hirfaith a ddangosodd mewn llawer ffordd mor agos oeddynt at ei chalon. Nid pawb sy'n gwybod ei bod yn hanu o

MISS SHARPE.

hen deulu Cymreig enwog. Un o'i hynafiaid oedd y Parch. Phylip Henry, M.A., yr hwn oedd un o'r Ddwy fil a drowyd allan o'u bywiolaethau yn 1662. Mab iddo ef oedd Matthew Henry, yr esponiwr, yr hwn oedd weinidog yr eglwys yn Chester lle mae D. Jenkin Evans yn weinidog yn awr. Yr oedd Phylip Henry yn fab i John Henry a hwnw yn fab i Henry Williams, offeiriad, yn ol tyb rhai, yn Briton Ferry—a Chymro wrth gwrs.

Merch oedd Miss Sharpe i Samuel Sharpe, y banker, awdwr llyfrau gwerthfawr ar yr Aifft, ac awdwr cyfieithiad o'r Hen Destament a'r Newydd sydd wedi myned trwy amryw argraffiadau. Yr oedd yntau yn nai i Samuel Rogers, y bardd Seisnig. Pan yn cyfeirio at ei fywyd priodasol bore, fe ddywed Mr. Sharpe, —"Ar adeg ein priodas cymerasom dŷ yn Canonbury Place, lle buom byw yn dawel. Ganwyd i ni bump o blant yno heblaw un a fu farw yn ieuanc. Yn 1840 symudasom i 32, Highbury Place, lle y ganwyd ein plentyn ieuengaf a'r lle y bu fy mhriod anwyl farw yn 1851. Gwnaeth fy mhlant eu goreu ac yn y modd mwyaf caredig leihau blinderon gweddwdod i mi, a theimlaf yn ddiolchgar i goffadwriaeth eu mam, yr hon adawodd i mi wel'd gymaint wyf yn ddyledus iddi hi am ei gofal yn dwyn y plant i fyny mor ofalus."

Pan oedd Emily yn 12 oed, cytunodd y rhieni i beidio cospi mwy, ac i ymddwyn tuag ati megis un mewn oed, ac os dygwyddai fod anufuddddod y gellid yn ddiameu ei dwyn i'w lle trwy eiriau caredig ar ol i ychydig amser fyned heibio. Pan yn 13 dechreuodd fel athrawes yr Ysgol Sul, ac mae ei thad yn ysgrifenu:— "Nid yw Emily byth yn colli."

Cyn priodi mynychai Mr. Sharpe gapel South Place, lle'r oedd William Johnson Fox, aelod seneddol hyawdl wedi hyny. Yn fuan wedi priodi aeth yn aelod i Islington lle mae'r Dr. Tudor Jones yn weinidog yn awr, wedi hyny aeth ef a'i deulu i Stamford Street yn ystod gweinidogaeth y Parch. Robert Spears. Yn ddiwedd-

arach aeth i Kentish Town lle'r oedd P. W. Clayden yn weinidog, yr hwn wedi hyny a ysgrifenodd ei fywgraffiad. Yr oedd Miss Emily yn aelod yn Highgate oddiar sefydliad yr achos yn 1886 gan y Parch. Robert Spears. Haf llynedd, gan ei bod yn teimlo y ffordd yn rhy bell i gerdded yno, dychwelodd i gapel Islington. Fel aelod o "Council" y B. & F. mynychai'r cyfarfodydd yn rheolaidd a chymerai ddyddordeb mawr yn ei weithrediadau. Fel ei thad gwnaeth wasanaeth dirfawr i eglwysi Undodaidd yn mhob parth o'r wlad—yn Lloegr, yn yr Iwerddon, ac yn Nghymru. Nid oes braidd yr un achos yn Nghymru nad yw o bryd i bryd wedi derbyn yn helaeth o'i haelioni. Gwnelai bob peth allai i galonogi achosion gweinion. Meddyliai yn uchel am y weinidogaeth, ac nid oedd neb a siaradai am dani gyda mwy o barch. Weithiau, a hyny yn hir cyn i'r rhyw fenywaidd yn mhlith yr Undodiaid gymeryd at bregethu, anerchai gynulleidfa gyda llawer iawn o ddylanwad a swyn. Yr oedd ei geiriau caredig a'i chroesaw cynes i'r gweinidog, a'i theimlad tuag at yr Ysgol Sul yn gyfryw nad anghofir yn hir mewn llawer man. Bu'n help mawr i Mr. Spears yn ei waith yn cadarnhau eglwysi gweinion ac yn cychwyn a sefydlu rhai newyddion. Yr oedd ei help i'r colegau yn ddidoi —Oxford, Manchester, Caerfyrddin. Rhoddai wobrwyon bob blwyddyn i'r rhai a brofent eu hunain yn oreu mewn gwybodaeth Feiblaidd. Cynaliai un myfyriwr—Indiad neu Arminiad—yn y coleg. Yr oedd yn "Life Governor" o Brifysgol Llundain hyd 1907. Cyfranodd at y Coleg £750, ac yn ddiweddar iawn rhoddodd £550 at Lyfrgell Dr. Williams. Pan yn 80 oed rhoddodd bob o gant punt i ddeunaw o'i pherthynasau. Arferai ei thad roi £100 bob blwyddyn at y Gymdeithas er cynorthwyo gweddwon y gweinidogion, a phan fu efe farw parhaodd hi i wneud yr un peth, a rhyngddynt maent wedi cyfranu £39,000—yn agos i ddeugain mil o bunau. Fel yr awgrymwyd eisoes teimlai ddyddordeb neillduol yn yr eglwysi yn Nghymru a thalai swm bob blwyddyn i helpu un gweinidog i fod yn bresenol yn nghyfarfodydd y Sulgwyn yn Llundain. Ystyriwn y manylion hyn, er y gwyddom eu bod yn mhell o fod yn gyflawn, yn amlygiad gwerthfawr o un llinell darawiadol yn ei chymeriad.

Cyn pasio Deddf Addysg 1870, clywsom ei bod yn cynal tair o Ysgolion yn ngwahanol barthau o Lundain, a gwyddom fod ei dyddordeb yn yr ysgol yn Channing House, yr hon a sefydlwyd gan Miss Matilda Sharpe yn 1885, yn fawr iawn. Am flynyddau aethai i fyny bob Sadwrn i roi Gwers Feiblaidd i'r merched yn y Testament Groeg.

Derbyniodd ei haddysg gartref ac yn benaf oddiwrth ei mam. Dysgodd ei thad ychydig Roeg a Lladin a Hebraeg iddi, a chafodd hwy o wasanaeth lawer gwaith. Heblaw hyny yr oedd ganddi wybodaeth ymarferol o dair o ieithoedd diweddar, y rhai oeddynt wrth gwrs yn help pan fyddai ar daith ar y Cyfandir. Yn ei blynyddau diweddaf talodd lawer o sylw i'r Gymraeg, ac arferai gario llyfr Cymraeg gyda hi pan yn myned i ffwrdd yn y Tramcar.

Gwnaeth gryn dipyn o ddefnydd o'r wasg; heblaw cadw yr hyn oedd ei thad wedi gyhoeddi, cyhoeddodd hithau lawer—Cyfrol o Bregethau o waith Undodiaid yn 1872, bywgraffiadau o Priestley, Lindsey, Channing, Socinus. Am dair blynedd golygodd *Unitarian Parish Magazine*—1892-1894, a chyfranai yn helaeth i'r *Unitarian Bible Magazine*, dan olygiaeth y Parch. G. Carter. Tebyg mae'r peth diweddaf gyhoeddodd, pan yn 84 oed, oedd hanes Socinus yn Lladin, gyda nodiadau Saesneg. Yn 1891 sefydlodd siop i werthu llyfrau Undodaidd yn 63, City Road.

O'r teulu, lluosog unwaith, ni adwaenodd ysgrifenydd y llinellau hyn ond y ddwy chwaer—Emily a Matilda. Yr oedd y lleill wedi blaenu. Cefais yr anrhydedd o letya gyda hwy lawer gwaith, ac nid oes dim yn rhy dda genyf i ddweyd am

danynt. Yr oeddynt bob amser yn roesawgar a siriol. Nid ymddangosai fod dim yn ormod ganddynt i'm gwneud yn gysurus. Bendith gwlad yw fod rhai o'u bath hwy yn cael eu bendithio a chyfoeth, gan eu bod yn gwybod y ffordd i wneud iawn ddefnydd o hono. Ffarwel, chwaer anwyl, am enyd bach. Y naill a gymerwyd a'r llall a adawyd. Bendithied yr Arglwydd yr un sydd ar ol. Rhodded iddi lwybr esmwyth ar y daith oriwaered, a nerth i edrych yn mlaen mewn gobaith at yr adeg y caiff adnewyddu cyfeillach eto a'i hanwyliaid hwnt i'r llen.

Cymerodd yr angladd le dydd Mawrth a chladdwyd yn Cemetery Abney Park, cyn hyny gwasanaethwyd yn y tŷ, yn fyr, gan Dr. Tudor Jones, a thrachefn yn Islington. Yn y Cemetery llefarwyd y gair o ffydd a gobaith gan y Parchn. Alexander Gordon a Francis Jones.

Gweddiodd Mr. Gordon—

"Dydi, yr Hwn wyt yn rhoddi cân yn lle ochenaid ac yn troi tywyllwch yn oleuni; molwn Di am fendigedigrwydd y bywyd a fu—yn tywallt allan o'i gyflawnder ini yn mlynyddau meithion y gorphenol; molwn Di yn fwy am fendigedigrwydd mwy y bywyd sydd yn awr, i'r hwn yr wyt Ti yn groesawi y rhai a'th garant Di. Felly yn awr, cyflwynwn i'th ofal Di yr hyn a welsom, gan ei osod yn y gweryd mwyn a barotoaist Ti, lle'r ydym yn adeiladu ein preswylfeydd, a lle y bydd ein cyfansoddiad blin yn cael gorphwysdra. Dyrchafwn ein calonau atat Ti, nid yn galaru megys rhai heb obaith; canys os ydym yn credu farw Iesu a'i adgyfodi, felly y rhai a hunasant yn Iesu a ddygi Di gydag Ef.—Amen."

Terfynodd Dr. Jones gyda geiriau'r fendith arferol.

PRIODASAU.

MEDI 28, yn Nghapelybryn gan y Parch. John Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins, a cher bron y cofrestrydd Mr. Titus Evans, y Parch. H. H. C. Jones, Hinckley a Miss Megan Myfanwy Owen, B.A., Cledlyn Park, Cwrtnewydd. Hir oes a phob daioni.

HYDREF 7, yn Nghapel Pantydefaid, gan y Parch. T. Arthur Thomas, Mr. John Penry Lewis, Bronheulog, Llandyssul, a Miss Rachel Jones, Brynowen, o'r un plwyf. Y bendithion goreu a'u dilyno.

HYDREF 25, yn Nghapel y Graig, Llandyssul, Private Francis Wrentmore, 3rd Battalion, Somerset Light Infantry, a Miss Mary Jones, Farmers Arms, Llandyssul. Nawdd y nef fo ar yr uniad,

MARWOFION.

HYDREF 1, Mrs. Sarah Helen Davies, Llwyndewi, Cellan, yn 71 mlwydd oed. Merch ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. John Jenkins, Rhydybannau, ger Cribyn, ac felly merch nith i'r enwog Daniel Evans, (Daniel Ddu o Geredigion). Unodd mewn priodas a Mr. David Davies, Beilie, Cellan, a threuliasant ran fawr o'u bywyd priodasol yn Nghoedmore-uchaf, ger Llanbedr, ac wedi hyny yn Henfaes, ger Llanybyther, ac wedi hyny yn Trebanau, Cellan, ac yn ddiweddaf oll yn Llwyndewi, Cellan. Nid oedd blwyddyn lawn wedi pasio oddiar marwolaeth ei phriod cyn i'r alwad ddod iddi hithau hefyd i'w ganlyn, ac er pob tirionwch posibl ar ran ei phlant ac eraill, ac er medrusrwydd meddygon lawer, gorfu arni ffarwelio a hwynt oll, a myned drwy y geledig gul adwy ar y dydd uchod. Diau mai un o'r pethau mwyaf anhawdd yn y byd yw cael syniad cywir a chyflawn am bersonoliaeth unrhyw un o'n cydnabod; ie, rhanol iawn ar y gore ydym ni'n adnabod ein gilydd hyd yn oed ein cyfeillion anwylaf, er troi'n mhlith ein gilydd am hir flynyddau, ac felly dylem fod yn ochelgar iawn yn ein gwaith o farnu ein gilydd, ac nid ydym am anghofio y gwirionedd hwn yn ein gwaith yn ceisio ysgrifenu ychydig linellau coffadwriaethol am Mrs. Davies. Ymaelododd yn ieuanc yn eglwys fechan y Cribyn, ac wedi hyny yn Nghaeronen, ac yn ddiweddarach am dymhor byr yn Alltyplaca, a chan nad pa ddiffygion allent fod yn perthyn iddi fel aelod o eglwys, neu o unrhyw gylch cymdeithasol arall—ac nid ydym yn digwydd gwybod am neb nad oes rhyw ddiffygion yn perthyn iddo—yr oedd hi bob amser yn ffyddlon, ac yn ymdrechu'n ddidwyll a gonest modd y medrai hi, dros lwyddiant yr achos yr oedd hi'n aelod o hono, ac yr oedd yn foddlon gwneyd aberthau lawer i ddwyn hyn oddiamgylch. Ond, os oedd yna un linell yn fwy amlwg na llinellau teilwng eraill yn ei chymeriad dirgel a chyhoeddus, nid ydym yn petruso dywedyd mai caredigrwydd calon oedd yr amlycaf o honynt oll, fel yr oedd pawb yn synu ac yn rhyfeddu at ei haelioni, a'r modd yr oedd ei bwrdd yn barhaus wedi ei hulio a thrugareddau i ddiwallu eisiau byd ac eglwys, pell ac agos, fyddent yn dod yn agos i'w thŷ. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol bedwar o blant—tri mab ac un ferch—a pherthynasau eraill lawer. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Lewis Williams, David Evans a Rheithor y Plwyf.

MANION AC HANESION.

LLWYNRHYDOWEN.—Talodd Ysgol Sul Capelycwm ymweliad a'r eglwys hon Sul, Medi 21. Yn y prydnawn holwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, ac aeth yr ysgol drwy ei gwaith mewn modd canmoladwy iawn. Canodd côr Capelycwm o dan arweiniad Mr. James Thomas, ddwy dôn gynulleidfaol a'r anthem—"O Dduw rho im' Dy Hedd," ac nid

gormod yw dweyd i bawb fwynhau eu canu yn fawr. Daeth yr ysgol lawr yn gryno a daeth cynulliad lluosog yn nghyd i'w croesawu a'u gwrando. Ar ol gwasanaeth y prydnawn rhoddodd cyfeillion y Llwyn dê i bawb o'r ymwelwyr. Yn yr hwyr cafwyd pregeth ragorol gan Mr. T. Oswald Williams ar y "Y Drws Agored."

LLWYN A'R BWLCH.—Cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf yn y lleoedd uchod nos Iau a nos Wener, Hydref 8fed a'r 9fed. Gwasanaethwyd gan Mr. T. Oswald Williams a'r Parch. E. O. Jenkins.

PANTDEFAID.—Cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf yma Sul a nos Fercher, Hydref 18 a 21. Pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a'r gweinidog. Arweiniwyd yn y rhanau defosiynol yn y cwrdd nos Sul gan y Parch. D. Jones (A.) Carmel. Cafwyd cynulliadau lluosog a chasglwyd at y Gymdeithas Undodaidd, Llundain.

GRAIG, LLANDYSSUL. — Cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch yn y lle hwn Sul a Llun, Hydref 18 a 19. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a'r gweinidog i gynulleidfaoedd llawnion. Dechreuwyd y gwasanaeth nos Lun gan y Parch. D. C. Griffiths (B.), Penybont. Casglwyd fel arfer at y Gymdeithas Undodaidd, Llundain.

CILIAU AERON. — Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch yma ar y 9fed o Hydref. Pregethwyd gan y Parch. J. A. Enoch, Bronfre, Ciliau Aeron, a chafwyd cynulliad da. Gwnawd casgliad at y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor.

RHYDYGWIN.—Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch yma ar y 13eg o Hydref, a phregethwyd gan y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn.

CAPELYBRYN AC ALLTYPLACA.—Cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch yn y lleoedd hyn fel y canlyn: — Capelycwm, Hydref 12; ac yn Alltyplaca, Hydref 16. Gwasanaethwyd yn y lle blaenaf gan y Parch. E. O. Jenkins, ac yn yr olaf gan y Parch. Lewis Williams. Cafwyd gwasanaethau da, cynulliadau gweddol, a chasgliadau boddhaol.

CYNALIODD eglwys Brondeifi ei chwrdd diolchgarwch am y cynhauaf ar y 14eg o Hydref, a Chaeronen ar y 15fed o'r un mis. Gwasanaethwyd yn y ddau le gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin a Chiliau.

CYMDEITHAS ADDYSGOL Y BOBL IEUAINC.—Dymunir cydnabod yn ddiolchgar y symiau canlynol tuag at Gronfa y Gymdeithas hon:—Y Prifathro W. J. Evans, Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, £1 1s.; Yr Athro Philemon Moore, 5s.; Mr. L. N. Williams, Aberdare, 10s. 6c. Dyddorol yma efallai fydd rhoi cyfanswm casgliadau y gwahanol eglwysi yn Sir Aberteifi yn ystod y flwyddyn ddiweddaf (hyny yw o ddechreu Awst 1913 hyd ddiwedd Gorphenaf 1914). Wele hwynt:—

	£	s.	c.
Capel y Graig, Llandyssul	4	13	8
Pantydefaid	3	16	1
Llwynrhydowen ...	2	18	11
Brondeifi, Llanbedr ...	2	11	2
Alltyplaca	2	8	0
Capel Heol Newydd, Aberystwyth	2	5	6
Ciliau	2	4	9
Capelybryn, Cwrtnewydd	2	0	1
Bwlchyfadfa	1	15	1
Rhydygwin	1	8	6
Cribyn	1	6	2
Caeronen	1	5	0
Capelygroes	1	0	11
Capelycwm	0	10	0

Heblaw y symiau hyn derbyniwyd £3 17s. 6c. oddiwrth wahanol bersonau nad ydynt yn perthyn i un o'r capeli uchod.—*D.J.D.*

Y BEIBL.—Y mae'r Parch. Jenkin Lloyd Jones o Chicago yn terfynu ei bregeth ardderchog ar ddarllen y Beibl gyda'r geiriau hyn:—"Yn nhy'r ieuengaf o'n teulu ni y mae hen lyfr sydd wedi dod yn etifeddiaeth i'r baban, sy'n benwyn erbyn hyn; y mae'r ddau glawr wedi myn'd, a'r ddalen gyntaf a diweddaf wedi treulio; a'r gweddill yn dwyn nodau

amlwg o wasanaeth hir. Y testun—yr hwn sydd mewn llythyrenau breision — ni fyddai'n ddealladwy i nemor un yn y cyfarfod hwn heblaw fy hun. Adwaenir y llyfr hwnw fel 'Cysur Mam,' am mai hwn oedd yr hen lyfr, allan o'r hwn, pan oedd ei llygaid yn pallu ar ei gwely o boen, y sugnai ei dyddanwch a'i chysur. Y mae genyf lawer argraffiad o'r Beibl yn fy llyfrgell, gyda llythyrenau tecach, ac wedi eu rhwymo'n dlysach, ond dim o'r un sydd yn meddu'r swyn o fywyd i fywyd, y cyffyrddiad sanctaidd, fel yr hen gopi syml hwn sydd wedi ei gysegru gan amynedd a chariad mam. Yn y fel yna y mae dylanwadau sanctaidd y Sul yn cyffwrdd a dylanwadau sanctaidd eangach y cartref ac ysprydoliaeth ddyfnach hanesiaeth.

"NAC OFNA!"

Na fodder byth sibrwd yr Iesu
Mewn diluw o glebet am dano ;
Clyw'r galon sy'n dyner swn canu
Tra'r dydd ar fyn'd heibio.

Ei air ar y dyfroedd brochionog,
"Nac ofna" yrr ofn ar ddisperod ;
O, gwrando di'r gair yn galonog
Yn nyddiau dy drallod.

Drachefn daw ei adsain i'n clustiau —
Mor hawdd ein dychrynir !
Fe rwystra'i 'Nac ofna''n holl ddagr-
Ac felly fe'n helpir. [au,

Fe rodia fôr garw ein bywyd,
A'i dôn pan lefarwn dangnefedd,
A thrwy ein holl ofid a'n trostyd,
Yn salm o orfoledd.

Chwi gywir ffyddloniaid yr oesau,
Ni roddwyd y beichiau i gyd i chwi,
O clywch mae yn sibrwd y geiriau—
"O peidiwch ag ofni !"

Y GENINEN—Da genym weled y "Geninen" yn parhau yn ei blas o hyd. Ceir ynddi ysgrifau galluog gan rai o brif lenorion y genedl. Ysgrifenant ar bynciau byw, ddeil gysylltiad agos a bywyd y genedl, ac ni eill yr un Cymro llenorol a gwladgarol fod yn gyflawn os na fydd wedi drachtio o'i thudalenau. Lleinw y "Geninen" gyffelyb le yn Nghymru ag a wna yr "*Hibbert Journal*" yn Lloegr. Cynwysa gynyrchion goreugwyr pob enwad crefyddol, a dichon y rhai na pherthynant i un enwad. Yn mhlith Hunangofiant Enwogion, edrydd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar hanes ei fywyd, ac er mai dognau bychain gawn, eto y maent yn ddyddorus dros ben. Ni fedrwn, oherwydd prinder gofod, nodi yr amrywiol ysgrifau yn y rhifyn diweddaf. Cymeradwywn y cyhoeddiad yn galonog i bawb deimlant ddyddordeb yn yr Hen Wlad.

NEFOEDD YN CYDYMDEIMLO.

O, mae uffern yn nghanol y Nef ;
Oes, ac y mae
Nefoedd lle cyfyd tragwyddol lef
Ingoedd a gwae
Enaid sancteiddiwyd gododd ei lais
Lleddf yn y Nef ;
Fry i'r orseddfainc, hwn oedd y cais
Prudd ddyrchafodd ef.

'Os geill dy engyl ganu yn llon
Yma, ar ol
Colli eu brodyr, newidiasant i dôn
Gofid mor ffol,
Er nad wyf yn wyneb llywodraeth mor
Yn cwyno am gam, lân
Fy Nuw, O fy Nuw, p'odd seiniaf fi
A'm brawd yn y fflam. [gân

Mwg ei boenydfan ddyrcha i'r Nef,
Beunydd, fy Nuw ;
Wylo a glywaf, a'i lefau dwys ef
A'm llosgant i'r byw :
O, mae ei uffern yn uffern i mi
Yn nghanol y Nef ;
Gariad mor ddwys, ai nid uffern i ti—
Uffern miloedd fel ef.—*Gwili.*

Allan o Bryddest 'Tu Hwnt i'r Llen,' 1896.

IT'S A LONG WAY TO TIPPERARY, A LONG WAY TO GO! — Dywedir mai rhywbeth tebyg i hyny yw'r gân yn ngenau y bechgyn ieuainc sydd heddyw yn myned allan i faes y rhyfel. Mae canu mor naturiol i'r gwr ieuanc ag yw i adar y goedwig. Canant am fod canu yn y galon, llon neu leddf fel y dygwyddo. Felly'r bardd ieuanc hefyd. Ebe Alexander Pope,—*I lisped in numbers for the numbers came;* ac yn gyffelyb Alfred Tennyson, y diweddar fardd breiniol, *I do but sing because I must, and pipe but as the linnets sing.* Ond pwy a ddichon ddychmygu beth sydd yn pasio trwy feddwl y milwr ieuanc—os yn meddwl o gwbl—ar adeg fel hon! Nid 'Tipperary sy'n apelio ato mae'n sicr: y peth tebycaf yw na wyr efe ddim am Tipperary. Mae rhywbeth yn y dôn, fe allai, neu yn y geiriau, sydd yn cyffwrdd a'i galon. Nid rhyfedd os yw'r galon yn drwm ac yn drist. Mae'n gadael cartref, yn gadael ei anwyliad—tad, mam, brawd, chwaer, neu briod fe allai, a phlant bach, &c. Pwy wyr? Gall y "*long, long way*" awgrymu llawer dan yr amgylchiad. Yr anwyl hen wynebau —*The old familiar faces.* A gaf fi eich gweled byth mwy? Mae'n meddwl am gartref—yn meddwl am nefoedd fe allai. "Ac os na chawn gwrdd yma, O am gwrddyd yn y nef!" Frawd ieuanc, anwyl, gwnawn gydymdeimlo â thi, a dymuno rhwydd hynt i ti, ac am fendith Duw arnat ti, a'i nawdd a'i amddiffyn drosot ti, drwy beryglon yr ymgyrch sydd o'th flaen. Ein dymuniad a'n gweddi yw ar i ti gael dychweliad adref eto yn iach a dianaf at yr anwyliaid a adewaist ar ol.

CYNGHOR PLATO.

Pam yn llawn rhyfyg y bydd dyn,
Sy'n ardderchaf waith y nef?
Pam yn bychanu'n boeth ei wyn,
Y dyn di-olud y bydd ef?

All gwisgoedd aur, all gwely pân?
All coron y Mawrhydi gau?
All gemog drwsiad menyw lan,
Dan golyn cur ein esmwythau?

Y Brenin Mawr, y caeth di-barch,
Y balch a'r di-falch marw a wnant;
Nid oes blaenoriaeth yn yr arch,
Pawb yr un cyflwr, bedd a gant.
Gwel ddiwedd cedyrn yr holl fyd,
A fuont gynt a'u rhwysg yn fawr,
Niwl oedd eu mawredd, maent i gyd
Gan anghof yn y llwch yn awr.

Fel hyn mae'r llewyrn gwag yn ffoi,
A'i ffug oleuni'n darfod oll;
Byr iawn ei oes, i ddim yn troi,
Fe aeth, i b'le? - dros fyth ar goll.
Gan weled beth a fydd ein rhan,
Boed rhyngom hedd a chariad clau,
Mae'r Angeu'n agos yn mhob man
Pan alwo Duw rhaid ufuddhau.

Cais ffyrdd cyfiawnder, ffyrdd y nef,
A ffyrdd blodeuog ydynt oll;
Glŷn wrth y gwir a'i gyngor ef
Ac yna nid a'i fyth ar goll:
I gariad hawddgar, isel fryd,
Rho enaid gwar a chalon glau;
Cai'r bedd yn borth i'r nefol fyd,
A mawredd hwn byth i barhau.

—*Iolo Morganwg.*

O'R GROGBREN I'R NEFOEDD.—Mae wedi cyffesu. Mae'r esgob wedi ei gonffirmio, a'i chwaer wedi gallu ei galonogi a dweyd wrtho, "Never mind, George, you may be better off in the next world." Rhaid iddo gael cyfranogi o'r cymundeb eto, yna gellir ei grogi, a gall yr offeiriad ddarllen y gwasanaeth claddu—"Gan hyn yr ym ni yn rhoi ei gorff ef i'r ddaear, sef daear i'r ddaear, lludw i'r lludw, pridd i'r pridd, mewn gwir ddiogel obaith o adgyfodiad i fuchedd dragwyddol." Dyna *short cut* i'r nefoedd! Beth yw barn y pregethwr anghydffurfiol?—*Q.Q.*

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

To H.R.H. The Prince of Wales, Buckingham Palace, London

I beg to enclose £ s. d. as a donation to the National Relief Fund.

Name.....

.....

The envelope containing this coupon need not be stamped.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord iredale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John exander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
rthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry
Sir Guy Douglas rthur Fleetwood Wilson, K.C.B., K.C.M.G., G.C.I.E.

Authorised Capital ..	**£22,200,000**	**Subscribed Capital** ..	**£20,873,520.**
Paid up Capital ..	**£4,348,650**	**Reserve Fund** ..	**£3,700,000.**
Deposits ..	**£93,833,580.**		

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.